**Cofnodion o Gyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd am 7:00 yn Nos Fawrth 20 Awst 2019 yn Menter Fachwen, Cwm y Glo.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Avril Jones (Cadeirydd), Goronwy Hughes, Martin Jones, Alan Pritchard, Cemlyn Jones, Meirwen Lloyd, Haf Williams, Hefin Jones, Clifford Williams.

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Richard Robinson, Phil Roberts, Beca Brown

**Hefyd yn bresennol:** Emyr Jones (Ysgrifennydd Clwb Pêl droed Llanrug Unedig) eitem 461 yn unig

**Clerc:** Meirion Jones

**456. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod

**457. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**458. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w datgan fel yn briodol

**459. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 16 Gorffennaf 2019**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 16 Gorffennaf yn gywir

**460. I drafod unrhyw faterion sydd yn codi o'r cofnodion.**

**Wal y Fynwent**

Nid oedd diweddariad wedi ei dderbyn ar pa bryd fyddai gweddill wal y fynwent yn cael ei wneud. Nodwyd fod y Parchedig Robert Townsend wedi symud, felly y Clerc i gysylltu a swyddfa'r Gadeirlan ym Mangor i gael diweddariad a pwynt cyswllt.

**Arwyddion Ffyrdd**

Adroddwyd fod y Cynghorydd Meirwen Lloyd wedi darganfod arwyddion yn Padog, Sir Conwy gyda cyflymder o 35 mya arnynt. Nodwyd nad oedd yr arwyddion yma yn rai statudol ond gofynnwyd i'w hanfon ymlaen i Mr Dylan Jones o Gyngor Gwynedd.

**Y Fricsan**

Adroddwyd fod y Fricsan wedi agor ar gyfer gweini bwyd

**461.** **I dderbyn adroddiad gan gynrychiolwyr o Glwb Pêl Droed Llanrug Unedig parthed trafferthion maent yn gorfod ei oresgyn yn dilyn rheolau newydd sydd yn dod i rym gan Gymdeithas Pêl Droed Cymru. Mae'r clwb yn awyddus os yn bosib i gael cymorth y cyngor cymuned.**

Cafwyd cyflwyniad gan Mr Emyr Jones, Ysgrifennydd Clwb Pêl droed Llanrug Unedig yn amlinellu'r pryderon oedd gan y clwb nawr ar gyfer y tymor pêl droed nesaf fyddai yn golygu na fuasai CPD Llanrug yn gallu chwarae pel droed yn y gynghrair presennol oherwydd nad oeddynt yn gallu cyrraedd gofynion newydd Cymdeithas pêl droed Cymru.

Adroddwyd fod y cae yn rhy fach ac fod angen ei ehangu. I'r perwyl hyn, adroddwyd fod y clwb wedi bod mewn cysylltiad a perchennog y tir ond nid oedd yn fodlon gwneud dim i helpu.

Nodwyd pe na fyddai'r clwb yn gallu cydymffurfio a'r gofynion, yna byddent yn disgyn lawr i Gynghrair Gwynedd.

Cafodd yr aelodau gyfle i holi Mr Jones am y newidiadau a sut byddent yn debygol o effeithio ar glybiau eraill ac adroddwyd fod rhan fwyaf o glybiau sydd yn yr yn cynghrair a Llanrug yn yr un sefyllfa.

**Penderfynwyd:**

- **a)** Cysylltu a Cyngor Cymuned / Tref yr ardaloedd ble mae clwb pêl droed sydd yn debygol o'i effeithio gan y rheolau yma;
- **b)** Gofyn i'r cynghorau hyn, gysylltu a'r clwb pêl droed i geisio eu cefnogi;
- **c)** Ysgrifennu at Gymdeithas Pêl Droed Cymru i ofyn iddynt ystyried newid neu ohirio'r rheolau ac am eglurhad dros y penderfyniad

**462.** **Mae Cyngor Cymuned Llanrug yn datgan ei fod yn cefnogi annibyniaeth i Gymru.**

Adroddwyd fod nifer o gynghorau cymuned a thref ynghyd a Cyngor Gwynedd wedi pasio i gefnogi annibyniaeth i Gymru ac fod angen i Llanrug nawr ystyried os ydi o'n cefnogi'r achos.

**Penderfynwyd:** Fod Cyngor Cymuned Llanrug yn cefnogi annibyniaeth i Gymru.

**463.** **I dderbyn diweddariad ar y broses o gyfethol aelodau newydd ar y cyngor.**

Adroddwyd fod dau gais pellach wedi dod i law a bydd y cyngor yn cofio iddo gyfweld un ymgeisydd nol yn fis Gorffennaf. Ar y pryd nid oedd yn bosib cyfethol oherwydd roedd un sedd yn parhau ac dau ymgeisydd arall wedi dangos diddordeb. Y drefn yw fod yr ymgeiswyr yn cael gwahoddiad i fynychu cyfarfod o'r cyngor er rhoi cyfle i aelodau eu holi.

Y ddau ymgeisydd oedd Iola Parry a Gwion Llwyd, yn ddau o Llanrug.

Diolch i'r ymgeiswyr am ddatgan diddordeb i eistedd ar y cyngor

**Penderfynwyd:**

a) Cyfethol Iola Parry a Gwion Llwyd i eistedd ar y cyngor cymuned;
b) Cysylltu a'r trydydd ymgeisydd i'w hysbysebu ac i ddiolch iddi am ddatgan diddordeb;
c) Y clerc i wneud y trefniadau gyda Iola Parry a Gwion Llwyd

**464. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd**

Dim adroddiad ar gael

**465. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Charles Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd**

Derbyniwyd yr adroddiad canlynol gan y Cynghorydd Charles Jones

**Croesfan pelican newydd ar gyfer Hafan Elan**

Mae amryw wedi gofyn am groesfan pelican o'r safle bws ger Hafan Elan ar Ffordd Caernarfon i'r ochr arall ger y gwaith cerrig beddi. Mae Steffan Jones, Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, am edrych i mewn i hyn.

**Amserlenni Bws – Gwasanaeth 83 (Dinorwig – Deiniolen - Llanrug – Bethel – Caernarfon) o 5 Awst 2019**

Mae'r newidiadau i'w cael ar:
https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Parcio-ffyrdd-a-theithio/Amserlenni-bws/Amserlenni-bws.aspx

Dalier sylw, mae dwy siwrne ychwanegol yn cael ei weithredu gan Dilwyn's Coaches:-

**0710 Deiniolen – Caernarfon**
**2245 Caernarfon – Deiniolen**

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**466. I ystyried pa gamau i'w cymryd yn dilyn cyflwr rhai o'r cerrig beddi ac i dderbyn adroddiad ar y sefyllfa ddiweddara.**

Yn dilyn cyfarfod o bwyllgor y fynwent a gynhaliwyd ar 31 o Orffennaf 2019 yn y fynwent, adroddwyd fod y pwyllgor wedi adnabod nifer o gofebion roedd yn simsan gyda dim byd i'w dal. Ar y noson darganfuwyd 7 carreg oedd yn rhydd a byddai yn golygu y gallai'r garreg ddisgyn ar blentyn neu unrhyw un gan achosi niwed difrifol. Cytunwyd ar y noson i weithredu un o reolau'r fynwent roedd yn rhoi caniatâd i'r cyngor roi'r cofebau i orffwys. Penderfynwyd byddai yn rhaid i rhywun wirio fod gweddill y cofebion ddim yn sigledig gyda peryg o ddisgyn.

Yn dilyn cario allan yr asesiad yma darganfuwyd fod 7 arall yn rhydd ac fe'i rhoddwyd i orffwys.

Derbyniwyd un gwyn am yr hyn a wnaethpwyd gan y cyngor ac fe ymatebwyd i'r gwyn gan y clerc.

Yn unol a rheolau'r fynwent, ble mae angen i'r cyngor gymryd camau fel hyn, y cyngor sydd yn gyfrifol am godi'r cofebion yn ôl i fyny ac wedyn ceisio casglu ad-daliad yn ôl gan deulu'r sawl ble mae'r cyngor wedi gwneud y gwaith. (Manylion y gwyn ynghyd a copi o'n ymateb eisoes wedi ei rannu)

**Penderfynwyd:**

a) Derbyn yr adroddiad am y gwyn;
b) Cytuno y dylai'r cyngor wneud y gwaith o godi'r cofebau;
c) Y clerc i geisio tendrau ar gyfer y gwaith oddiwrth seiri meinion cyfagos gan sicrhau byddai'r cofebion yn cael eu gosod i safonau cyfredol BRAMM;
d) I gael y prisiau i fewn i'r cyngor erbyn 5:00 yn 13 o Fedi 2019

**467. I nodi ac ystyried cwyn a dderbyniwyd parthed trefniadau ar gyfer torri gwair yn y fynwent ac i ystyried pa gamau dylid eu cymryd.**

Derbyniwyd cwyn fod contractwr sydd wedi bod yn torri gwair yn y fynwent wedi gyrru peiriant torri gwair ar draws bedd ble roedd y teulu wedi gwasgaru hadau gwair ac wedi rhoi pridd newydd yno. (Manylion y gwyn eisoes wedi ei rannu)

**Penderfynwyd:**

a) Derbyn y gwyn a cydymdeimlo a'r teulu ar y digwyddiad anffodus yma;
b) Nodwyd mai wn yw'r gwyn gyntaf o'r math yma mae'r cyngor wedi ei dderbyn;
c) Cytunwyd fod y clerc i ysgrifennu tuag at y contractwr i'w hysbysu o'r gwyn ac i sicrhau ble mae'n dod ar draws achos o ble mae hadau gwair ar fedd nad ydi yn mynd dros y bedd yna gyda peiriant.
d) Y clerc i gysylltu a'r teulu i ymddiheuro am hyn ac i'w hysbysu fod y contractwr wedi ei atgoffa o ofynion y cyngor.

**468. I ystyried materion yn ymwneud a'r llwybr rhwng Cwm y Glo a Glyntwrog, Llanrug. (Cyng Cemlyn Jones)**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Cemlyn Jones am gyflwr y llwybr rhwng Cwm y Glo a Llanrug. Adroddwyd fod y llwybr yn prysur cau fyny ac oherwydd tyfiant mae yn ei wneud yn llithrig ar gyfer rhedwyr a cherddwyr.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad a'r clerc i gysylltu a Chyngor Gwynedd i ofyn iddynt os gallent dorri'r tyfiant ynghyd a defnyddio peiriant i lanhau'r llwybr

**469. I ystyried cwyn am faterion yn ymwneud a sbwriel yn dilyn y lorri ailgylchu fod yn Cwm y Glo.(Cyng Cemlyn Jones)**

Adroddwyd fod cwynion yn cael eu derbyn yn dilyn i'r lori casglu ail-gylchu a sbwriel fod o amgylch pentref Cwm y Glo ac ar y dyddiau yma mae sbwriel sydd wedi golli o'r biniau ail-gylchu ac o'r lori ar y llawr. Mae hyn yn dorcalonnus pan mae ymdrechion y pentref wedi cymryd lle i gadw'r pentref yn daclus drwy ymgyrch casglu sbwriel.

**Penderfynwyd:** Y Clerc i gysylltu a Chyngor Gwynedd i ddwyn eu sylw i hyn

**470. I ystyried a penderfynu ar pa gamau i'w cymryd yn dilyn cwyn a dderbyniwyd parthed materion yn ymwneud a'r caffi symudol sydd wedi ei leoli ger 1 Arfon Terrace, Llanrug. (manylion eisoes wedi eu cylchredeg)**

Adroddwyd fod cwyn wedi ei dderbyn parthed materion parcio ger y safle yma a gwelwyd lluniau o wahanol gerbydau roedd wedi parcio.

**Penderfynwyd:**

a) Derbyn y gwyn a diolch am ddod a'r mater i sylw'r cyngor;
b) Y Clerc i gysylltu a Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd yn amlinellu'r gwyn;
c) Y Clerc i ddwyn y mater gerbron Adran Cynllunio Cyngor Gwynedd

**471. Cais Cynllunio**

**Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C19/0729/23/LL

**Lleoliad y Safle:** Tir ger Bryn Celyn, Lon Groes, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL554AF

**Dyddiad Cofrestru:** 01/08/2019

**Math o Gais:** Llawn - Cynllunio

**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Diwygio amod 2 o ganiatâd cynllunio C16/0493/23/LL er mwyn ymestyn yr amser cyn cyflwyno'r materion a gadwyd yn ol i 6 mlynedd /

**Statws:** Cais wedi cofrestru

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

**472. I dderbyn diweddariad ar sefyllfa clwb ieuenctid**

Adroddwyd fod un person wedi ymgeisio am swydd gyda'r clwb ieuenctid yn Llanrug ac ein bod ar hyn o bryd yn disgwyl dyddiad ar gynnal cynnal cyfweliad. Nodwyd mai penderfyniad y cyngor yn ei gyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 24ain o Fehefin 2019 gyda swyddogion o'r gwasanaeth ieuenctid oedd fod tri person yn gyflogedig yn y clwb. Hyn am resymau pan mae un aelod yn sâl, yna gyda dim ond un person, byddai rhaid cau'r clwb ar y noson honno.

**Penderfynwyd:**

a) Y Clerc y gysylltu a Chyngor Gwynedd i leisio pryderon y cyngor am y drefn**.**

Daeth y cyfarfod i ben am 21:06

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: 17 Medi 2019